Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Iau, 23 Chwefror 2017

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a fydd yn cael ei gynnal am 2.00 pm Dydd Mercher, 1af Mawrth, 2017 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA i ystyried yr eitemau canlynol

**R H A G L E N**

## 1 CYFLWYNIADAU

Cydnabyddiaeth o lwyddiant Llys Custom House yng nghategori Datblygiad Newydd Gwobrau Tai Cymru'r Sefydliad Tai Siartredig.

## 2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

## 3 DATGAN CYSYLLTIAD

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol â hynny.

## 4 DEISEBAU

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw ddeiseb.

## 5 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gwestiwn gan y cyhoedd.

## 6 CWESTIYNAU

**Pwrpas:** Nodi'r atebion i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 9.4(A) y Cyngor Sir.

## 7 <u>CWESTIYNAU GAN AELODAU AM GOFNODION PWYLLGORAU</u>

**Pwrpas:** Mae'r Llyfr Cofnodion, Rhifyn 5 2016/17, wedi ei ddosbarthu i'r Aelodau. Mae hawl gan yr Aelodau ofyn cwestiynau am y cofnodion hyn, yn amodol ar gyfyngiadau penodol, a bydd yr atebion yn cael eu darparu yn y cyfarfod. Gofynnir i Aelodau ddod â'u copi o'r Llyfr Cofnodion i'r cyfarfod. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw gwestiwn i'r Rheolwr Democratiaeth a Llywodraethu cyn diwedd y diwrnod gwaith ar 23 Chwefror 2017.

## 8 <u>RHYBUDD O GYNNIG</u>

**Pwrpas:** Ystyried y cynigion canlynol:

(i) <u>Y Cynghorydd Andy Dunbobbin</u>

Gwneud i'r Cyfrifiad nesaf gyfri ar gyfer ein cymuned Lluoedd Arfog. Cynnig Drafft yn Cefnogi Ymgyrch *'Count Them In'*. Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

1. Yr hyn sy'n ddyledus i gymuned y Lluoedd Arfog o fewn Cyngor Sir y Fflint fel y nodir yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog; ni ddylai cymuned y Lluoedd Arfog wynebu anfantais o ran darpariaeth gwasanaethau a dylid rhoi ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion, yn enwedig i unigolion sydd wedi rhoi'r mwyaf.
2. Diffyg ystadegau pendant a chynhwysol ar faint neu ddemograffig cymuned y Lluoedd Arfog o fewn Cyngor Sir y Fflint. Mae hyn yn cynnwys personél Rheolaidd ac Wrth Gefn, cyn filwyr, a'u teuluoedd.
3. Byddai argaeledd data o'r fath o gymorth mawr i'r Cyngor, asiantaethau partner lleol, y sector gwirfoddol a Llywodraeth Genedlaethol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion unigryw cymuned y Lluoedd Arfog o fewn Cyngor Sir y Fflint.

O ystyried yr uchod, mae'r Cyngor hwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo galw'r Lleng Brydeinig Frenhinol i gynnwys pwnc newydd yng Nghyfrifiad 2021 sy'n ymwneud â gwasanaeth milwrol ac aelodaeth cymuned y Lluoedd Arfog. Rydym yn galw ar Senedd y DU a fydd yn cymeradwyo holiadur terfynol y Cyfrifiad drwy ddeddfwriaeth yn 2019, i sicrhau y bydd Cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog.

(ii) <u>Y Cynghorydd David Roney</u>

Wrth gydnabod y rhaglen adeiladu tai Cyngor anhygoel, sy'n nodi y bydd Cyngor Sir y Fflint yn adeiladu 200 o dai dros gyfnod o 5 mlynedd.

Gofynnaf i'r Cyngor hwn osod paneli solar ar yr holl dai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i wneud y tai hyn yn well fyth a gosod esiampl i'r diwydiant adeiladu.

Gofynnaf hefyd i'r Cyngor hwn wneud cais i Lywodraeth presennol San Steffan a Llywodraethau'r dyfodol i gynyddu'r tariff cyflenwi trydan i annog mwy o ddefnydd o'r ffynhonnell ynni glân ac adnewyddadwy hon.

(iii) Y Cynghorydd Helen Brown

Rydym ni, Cyngor Sir y Fflint yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd i sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau mai diogelwch plant sy'n dod yn gyntaf wrth deithio i/o'r ysgol.

Rydym ni eisiau bod yn dawel ein meddyliau bod ein plant yn ddiogel wrth deithio i/ o'r ysgol. Rydym eisiau bysiau ysgol dynodedig gyda chyllid priodol er mwyn i blant cymwys allu derbyn cludiant ysgol diogel, pob un â gwregys diogelwch ei hun a heb orfod gorfodi unrhyw blentyn i deithio ar fysiau cyhoeddus gorlawn. Mae'n rhaid i ddiogelwch plant ddod yn gyntaf.

Mae gan ein plant yr hawl i deimlo'n ddiogel. Gall fysiau cyhoeddus orlenwi ac nid yw plant yn teimlo'n ddiogel bob amser. Mae bysiau cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio, nid ydynt yn bwrpasol ar gyfer defnydd ysgolion. Nid yw Cynghorau Lleol, ar hyn o bryd, yn gallu rhedeg gwasanaethau diogel, addas a phriodol ar gyfer plant ar hyd llwybrau bysiau cyhoeddus sy'n gweithredu'n fasnachol.

Gofynnwn i'r Cyngor hwn weithio gyda'r ddwy Lywodraeth i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol i'r ddeddfwriaeth a'r ddarpariaeth gyfredol.

9 **TRETH Y CYNGOR GOSOD AR GYFER 2017-18** (Tudalennau 5 - 20)

Adroddiad Prif Swyddog (Cymuned a Menter) -

**Pwrpas:** Cymeradwyo'r taliadau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ganlynol fel rhan o osod y gyllideb.

10 **GWEITHIO RHANBARTHOL A'R PAPUR GWYN 'DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: CADERNID AC ADNEWYDDIAD'** (Tudalennau 21 - 90)

Adroddiad Prif Weithredwr -

**Prwpas:** (1) darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor o ran gweithio'n rhanbarthol yng ngogledd Cymru fel cyd-destun ar gyfer ystyried y Papur Gwyn sy'n cynnig dewis amgen i ad-drefnu'r llywodraeth leol; a

(2) gwahodd y Cyngor i ymateb yn ffurfiol i'r Papur Gwyn.

11 **BIL YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU)** (Tudalennau 91 - 106)

Adroddiad Prif Weithredwr -

**Prwpas:** Gwahodd y Cyngor i gefnogi'r bil yn unol ag argymhelliad y Cabinet.

12 **DATGANIAD AR BOLISÏAU TÂL AR GYFER 2017/18** (Tudalennau 107 - 134)

Adroddiad Prif Weithredwr ac Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol -

**Prwpas:** Darparu crynodeb i Aelodau o'r Datganiad ar Bolisïau Tâl sy'n crynhoi ymagwedd y Cyngor i gyflog a thâl ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

13 **ADOLYGIAD BLYNYDDOL O COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 135 - 170)

Adroddiad Prif Weithredwr -

**Pwrpas:** Cymeradwyo’r Cod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig i’w gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

14 **NEWIDIADAU I’R CYFANSODDIAD** (Tudalennau 171 - 174)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

**Prwpas:** Yng ngoleuni’r newidiadau sefydliadol sydd ar y gweill, ceisio awdurdod y Prif Swyddog (Llywodraethu) a Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd i newid teitlau swyddi o fewn y Cyfansoddiad yn ôl yr angen.

15 **CYFUNO BUDDSODDIADAU CRONFEYDD PENSIWN CYMRU** (Tudalennau 175 - 242)

Adroddiad Prif Weithredwr ac Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd -

**Prwpas:** Sefydlu cydbwyllgor i lywodraethu buddsoddiadau cyfun yr wyth gronfa bensiwn yng Nghymru.

Yn ddiffuant,



Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**HYSBYSIAD GWEDDARLLEDU**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio a’I ddarlledu’n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei ffilmio oni bai fod eitemau cyfrinachol neu wedi’u heithrio dan drafodaeth, a bydd ar gael i’w weld ar wefan y Cyngor am 6 mis.

Yn gyffredinol ni fydd y mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag wrth i chi ddod i mewn i'r Siambr, byddwch yn cydsynio i gael eich ffilmio ac i’r defnydd posibl o’r delweddau a’r recordiadau sain hynny ar gyfer gweddarlledu a/neu ddibenion hyfforddi.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, ffoniwch aelod o’r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345